**COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL**

**Y CABINET**

**DYDD MERCHER, 19 CHWEFROR 2020**

**Cabinet Members:**

Cynghorwyr:: R.G.Jones (Cadeirydd), C.Clement-Williams, D.Jones, E.V.Latham, P.A.Rees, P.D.Richards a/ac L.Jones

**Swyddogion yn bresennol:**

A.Evans, K.Jones, C.Griffiths, A.Thomas, C.Furlow-Harris, C.Davies a/ac T.Davies

---

1. **PENODI CADEIRYDD**

Cytunwyd y dylid penodi'r Cynghorydd R G Jones yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

2. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Gwnaeth yr aelod canlynol ddatganiad o fudd ar ddechrau'r cyfarfod:

Y Cynghorydd E V Latham - Parthed Cronfa Gymunedol yr Aelod - Dwyrain Sandfields, gan ei fod yn cyfeirio at ei ward.

3. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

**Penderfyniad:**

Cymeradwyo cofnodion y cyfarfodydd blaenorol a gynhaliwyd ar 30 Hydref, 20 Tachwedd, 9 Rhagfyr 2019 a 10 Ionawr 2020 yn gofnod cywir.

4. **BLAENRAGLEN WAITH 2019/2020**

Fe'i nodwyd gan y pwyllgor

5. **SEFYDLU CADETIAID Y MAER**

**Penderfyniad:**

Cymeradwyo'r cais i sefydlu 3 o Gadetiaid y Maer ar gyfer pob blwyddyn ddinesig o fis Mai 2020 ymlaen.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Codi proffil ein gwasanaethau ieuenctid mewn gwisg unffurf a darparu cyfleoedd i'n cadetiaid ifanc gymryd rhan mewn rhai digwyddiadau proffil uchel.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

6. **POLISI HYSBYSEBU A NODDI**

Oherwydd y newidiadau diweddar i bortffolios aelodau'r Cabinet, nododd yr aelodau y byddai'r cyfeiriadau i'r Dirprwy Arweinydd yn y polisi, y manylwyd arnynt ar dudalen 53 yr adroddiad a ddosbarthwyd, yn cael eu newid o 'Dirprwy Arweinydd' i 'Aelod y Cabinet dros Gyllid'.

**Penderfyniad:**

Cymeradwyo'r Polisi Hysbysebu a Noddi, fel y nodwyd yn Atodiad 1 yr adroddiad a ddosbarthwyd, yn amodol ar ddiwygio'r newid cyfrifoldeb o 'Dirprwy Arweinydd' i 'Aelod y Cabinet dros Gyllid'.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Caniatáu i'r cyngor gymryd ymagwedd gorfforaethol a chyson at gwblhau'r gweithgareddau creu incwm hyn, a darparu fframwaith a mesurau rheoli clir i sicrhau y cydymffurfir â deddfwriaeth, codau diwydiant a pholisïau'r cyngor, gan gynnig y gwerth gorau am arian.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

## 7. CRONFA GYMUNEDOL YR AELODAU - BRYN A CHWMAFAN

**Penderfyniad:**

Prynu torrwr laser dan reolaeth cyfrifiadur (CNC) ar gyfer 'Bspoked Enterprises', Parc Busnes Mynachlog Nedd, Castell-nedd, a dyfarnu dyraniad y Cynghorydd Charlotte Galsworthy o £3,921.45 dan Gronfa Gymunedol yr Aelod.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Cymeradwyo'r cais am gyllid a dderbyniwyd dan Gronfa Gymunedol yr Aelod.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

## 8. CRONFA GYMUNEDOL YR AELODAU - GOGLEDD BRYN-COCH A DE BRYN-COCH

**Penderfyniad:**

Rhoi dwy fainc newydd yng ngogledd a de Bryncoch, ailwampio trydedd fainc, plannu coed a sefydlu grŵp codi sbwriel gwirfoddol, gyda'r Cynghorwyr Wyndham Fryer Griffiths, Jo Hale a Chris Williams yn cyfrannu £868.10 yr un o gronfeydd Cymunedol yr aelodau hyn.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Cymeradwyo'r cais am gyllid a dderbyniwyd dan Gronfa Gymunedol yr Aelod.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

9. **CRONFA GYMUNEDOL YR AELOD - GORLLEWIN COEDFFRANC**

**Penderfyniad:**

Prynu cyfarpar hyfforddi a hyfforddi gwirfoddolwyr parod fel hyfforddwyr Lefel 1 a Lefel 2 ar gyfer Adran Plant Bach ac Iau Clwb Pêl-droed a Rygbi Sgiwen, Y Clwb Pêl-droed, Parc Tennant, Sgiwen, Castell-nedd, a dyfarnu dyraniad y Cynghorydd Helen Ceri Clarke o £2,026.63 dan Gronfa Gymunedol yr Aelod.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Cymeradwyo'r cais am gyllid a dderbyniwyd dan Gronfa Gymunedol yr Aelod.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

10. **CRONFA GYMUNEDOL YR AELOD - Y CREUNANT**

**Penderfyniad:**

Newid ac addasu ystafell na chaiff ei defnyddio llawer yn Ysgol Gynradd Creunant, Heol yr Ysgol, Crynant, yn lleoliad amlswyddogaethol at ddefnydd y gymuned ehangach, a dyfarnu dyraniad y Cynghorydd Siân Harris o £7,281.09 dan Gronfa Gymunedol yr Aelodau.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Cymeradwyo'r cais am gyllid a dderbyniwyd dan Gronfa Gymunedol yr Aelod.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

11. **CRONFA GYMUNEDOL YR AELOD - Y CREUNANT**

**Penderfyniad:**

Prynu dau fin graean a'u gosod yn Stryd Mary a'r Cilgant, y Creunant, a dyfarnu cyfraniad y Cynghorydd Siân Harris o £654 dan Gronfa Gymunedol yr Aelod.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Cymeradwyo'r cais am gyllid a dderbyniwyd dan Gronfa Gymunedol yr Aelod.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

12. **CRONFA GYMUNEDOL YR AELOD - PELENNA**

**Penderfyniad:**

Prynu eitemau o gyfarpar hyfforddi hanfodol ar gyfer Adrannau Plant Bach ac Iau Clwb Pêl-droed a Rygbi Pont-rhyd-y-fen, Cwmafan, Port Talbot, a dyfarnu dyraniad y Cynghorydd Jeremy Hurley o £791.66 dan Gronfa Gymunedol yr Aelod.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Cymeradwyo'r cais am gyllid a dderbyniwyd dan Gronfa Gymunedol yr Aelod.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

13. **CRONFA GYMUNEDOL YR AELOD - PORT TALBOT**

**Penderfyniad:**

Gwella'r strydlun yng Nghilfach Trefelin, Felindre, Port Talbot gyda cholofn goleuo stryd 6 metr ychwanegol, yn ogystal â lamp LED 27 watt, gyda'r Cynghorydd Saifur Rahaman yn cyfrannu £1,584 dan Gronfa Gymunedol yr Aelod.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Cymeradwyo'r cais am gyllid a dderbyniwyd dan Gronfa Gymunedol yr Aelod.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

14. **CRONFA GYMUNEDOL YR AELOD - RESOLFEN**

**Penderfyniad:**

Darparu hysbysfwrdd cyhoeddus a gwell goleuadau yng Nghanolfan Gymunedol y Clun a Melin-cwrt yn Ynys-yr-Afon, y Clun, gyda'r Cynghorydd Dean Lewis yn cyfrannu'r arian sy'n weddill yn ei Gronfa Aelod, sef £1,005.00.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Cymeradwyo'r cais am gyllid a dderbyniwyd dan Gronfa Gymunedol yr Aelod.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

15. **CRONFA GYMUNEDOL YR AELOD - DWYRAIN SANDFIELDS**

**Penderfyniad:**

Prynu a gosod Diffribiliwr Allanol Awtomatig (AED) sy'n hygyrch i'r cyhoedd yng Ngorsaf Bad Achub RNLI Port Talbot, Glan Môr Aberafan, Aberafan a dyfarnu dyraniad y Cynghorydd Matthew Crowley o £1,300.00 dan Gronfa Gymunedol yr Aelod.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Cymeradwyo'r cais am gyllid a dderbyniwyd dan Gronfa Gymunedol yr Aelod.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

## 16. CRONFA GYMUNEDOL YR AELOD - TREBANNWS

**Penderfyniad:**

Prynu a gosod Diffribiliwr Allanol Awtomatig (AED) sy'n hygyrch i'r cyhoedd, yn ogystal ag arwydd sy'n dangos ei leoliad, yn 'Western Garage', Trebannws, a dyfarnu dyraniad y Cynghorydd Rebeca Phillips o £2,246.60 dan Gronfa Gymunedol yr Aelod.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Cymeradwyo'r cais am gyllid a dderbyniwyd dan Gronfa Gymunedol yr Aelod.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

## 17. CRONFA GYMUNEDOL YR AELOD - TREBANNWS

**Penderfyniad:**

Rhoi cyfarpar codi sbwriel a bocsys dim gwastraff i grŵp amgylcheddwyr, 'My Green Valley', i greu ardaloedd dim sbwriel yn Nhrebannws ac mewn ardaloedd pellennig, gyda'r Cynghorydd Rebeca Phillips yn cyfrannu £3,637.51 dan Gronfa Gymunedol yr Aelod.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Cymeradwyo'r cais am gyllid a dderbyniwyd dan Gronfa Gymunedol yr Aelod.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

**CADEIRYDD**